Taflen Ffeithiau - Niwsans Sŵn

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn ymwneud â chwynion ynghylch niwsans sŵn. Dylid ei darllen ochr yn ochr â Gweithdrefn Gwynion y Cyngor Sir.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion ynghylch niwsans sŵn sy'n deillio o eiddo domestig/masnachol/diwydiannol o fewn ei ardal a chymryd y camau gorfodi priodol pan ganfyddir bod niwsans statudol yn bodoli. Uned Iechyd y Cyhoedd y Cyngor Sir sydd fel arfer yn ymgymryd â'r gwaith hwn. Rhaid i'r Cyngor weithio yn unol â'r gyfraith, canllawiau'r llywodraeth a'i bolisïau a'i weithdrefnau ei hun.

Gellir defnyddio'r Weithdrefn Gwynion ar gyfer cwynion ynghylch y ffordd y mae'r Cyngor wedi delio â chwynion ynghylch niwsans sŵn, yn cynnwys:

- methiant i ymchwilio i gŵyn ynghylch niwsans sŵn parhaus.
- oedi afresymol cyn ymchwilio i gŵyn ynghylch niwsans sŵn.
- methiant i gymryd camau neu fesurau gorfodi i ddatrys y broblem ar ôl clustnodi bod problem niwsans sŵn statudol yn bodoli.
- peidio ag egluro canlyniad ei ymchwiliad wrthych.
- methiant i gymryd sylw o'r holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael.

Ni ellir defnyddio'r weithdrefn gwynion er:

- dod i benderfyniad ynghylch a yw'r sŵn yr ydych yn cwyno amdano yn niwsans yn ôl y gyfraith.
- goruwchreoli penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a yw sŵn yn niwsans yn ôl y gyfraith a'r camau gorfodi y mae wedi'u cymryd.
- goruwchreoli penderfyniad Llys mewn unrhyw Apêl yn erbyn cyflwyno Hysbysiad neu ddyfarniad a roddwyd wrth erlyn niwsans sŵn statudol.

I gael cyngor ynghylch gwneud cwynion am niwsans sŵn, dylech gysylltu'n uniongyrchol ag Uned Iechyd y Cyhoedd y Cyngor drwy'r Ganolfan Gyswllt (01267 234567) yn ystod oriau arferol swyddfa. Nid yw'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth brys y tu allan i oriau arferol ar gyfer cwynion ynghylch niwsans sŵn. Os ydych yn dioddef niwsans sŵn bydd angen i chi roi manylion y sŵn a'r dyddiadau a'r adegau y mae wedi digwydd.

Mae gan yr adran weithdrefn ffurfiol i ddelio ag ymholiadau ynghylch sŵn a bydd eich ymholiad yn cychwyn y weithdrefn honno. Ni all y Cyngor ymyrryd yn syth i atal y sŵn gan y bydd angen cynnal ymchwiliad i sefydlu natur y broblem. Mae'n bosib y gofynnir i chi gadw dyddiadur i gofnodi manylion y broblem yn rhan o'r ymchwiliad.

I gael mwy o wybodaeth ffoniwch: 01267 234567 neu edrychwch ar wefan y Cyngor.
http://www.carmarthenshire.gov.uk/Cymraeg/amgylchedd/iechyd/llygredd/Pages/Noise.aspx